
BWYTA'R LLYSIAU
I'W LLETHU
2025
DECHRAU
10FED
MAWRTH
2025
CANLLAW
RHAGLEN
VEGPOWER



# 80%

## O BLANT DDIM YN BWYTA DIGON O LYSIAU

Dyw 80% o blant ddim yn bwyta digon o lysiau gyda traean yn bwyta llai na un dogn o lysiau y dydd. Falle yn fwy brawychus yw bod 50% o rieni yn dweud eu bod wedi cael digon o drio.

Gyda chymorth yr ysgolion ar draws y DU ry'n ni'n ceisio newid hyn trwy ddefnyddio creadigrwydd a hwyl i ysbrydoli plant i ddatblygu arferion da am fywyd, ac yn y pendraw rhannu gyda eu plant nhw hefyd.

Gwybod mwy:
***EatThemToDefeatThem.com***

# YMUNO Â'R FRWYDYR

**Mae'r llysiau yn ôl! Mae Bwyta'r Llysiau i'w Llethu yn ôl ar gyfer ei seithfed blwyddyn. Byddwch yn barod i frwydro'r llysiau llwfr (cliw: y plant sy'n ennill).**

Ry'n ni wedi gwrando ar eich adborth ac wedi gwneud y rhaglen eleni yn fwy hyblyg. Ymunwch â'r frwydyr llysiau yn ystod ein wythnos ffocws yn cychwyn 10fed o Fawrth, neu cadw'r hwyl i fynd tan y Pasg! Mae ganddon ni lwyth o adnoddau cyffrous i helpu chi oresgyn y dyddiau llysiau.

Mae'r canllaw defnyddiol yma yn llawn teclynnau a thriciau sydd ar gael i chi eleni. Mae'n amser trechu'r llysiau!

***Peidiwch â cholli diweddariadau i ysgolion am y rhaglen. Cliciwch yma i gofrestru.***



## CYNNWYS


Am y cynllun 4
Eich cynllunydd 6
Llysiau! 8
Gwasanaeth 9
Adnoddau Dysgu 10
Archwilio Bwyd ar Draws y Byd 11
Sticeri 12
Her Arlwywyr 13
Ymgysylltu Teuluoedd 14
Adborth a Help 15


**Gold Winner**
IPA EFFECTIVENESS AWARDS

**President's Prize for Behavioural Change**
IPA EFFECTIVENESS AWARDS

**Gold Winner**
EFFIE AWARDS

# BWYTA'R LLYSIAU I'W LLETHU



***"Mae arna i ddiolch mawr i'r bobl y tu ôl i'r ymgyrch Bwyta'r Llysiau i'w Llethu. Mae faint o lysiau mae fy merch yn bwyta wedi cynyddu llwyth! Mae hi wrth ei bodd yn dweud wrthym am yr holl lysiau mae hi'n eu trechu, a sut mae hi'n achub ni i gyd!"***

DIM OND UN O FILIYNAU O RIENI





Erioed wedi dymuno y gallech chi argyhoeddi plant eu bod nhw wir eisiau bwyta llysiau? Wel, yn ôl yn 2018, ymunodd Veg Power ag ITV i wneud hynny! Fe wnaethom lansio'r ymgyrch wych hon o'r enw "Eat Them to Defeat Them / Bwyta'r Llysiau i'r Llethu" sydd yn troi bwyta llysiau yn antur epig.

Anghofiwch hen ddarlithoedd "pump y dydd" diflas! Mae'r rhaglen wobrwyedig yma yn defnyddio gweithgareddau hwyliog, hysbysebu cofiadwy ac enwogion i gael plant i gyffroi am lysiau. Meddyliwch amdano fel tasg i archarwr - lle y llysiau yw'r dihirod a phob brathiad yn fuddugoliaeth.

Dros y chwe blynedd diwethaf rydym wedi cael £20m o hysbysebu a dros 5,000 ysgolion gydag 1.7m o blant gwahanol yn cymryd rhan. Maen nhw'n dysgu am lysiau yn yr ystafell ddosbarth, gwneud gweithgareddau hwyliog, blasu byrbrydau blasus, a chael siartiau gwobrwyo cŵl i fynd adref gyda sticeri.

A chi'n gwybod beth? Mae'n gweithio go iawn! Mae rhieni yn dweud bod eu plant yn bwyta mwy o lysiau nag erioed o'r blaen. Wedi'r cyfan, pwy all wrthsefyll y cyfle i fod yn arwr sy'n concro llysiau?



## £20M

O HYSBYSEBU WEDI EI ROI I'R YMGYRCH



## 33M+

wedi cyrraedd gyda hysbysebu

## 5,000+

o ysgolion wedi cymryd rhan yn y rhaglen ysgolion

## 1.7M+ O BLANT GWAHANOL

wedi cymryd rhan mewn ysgolion gyda digwyddiadau blasu a siartiau gworbwyo

## 77% RHIENI

*plant a gymrodd ran mewn ysgolion yn dweud bod y plant wedi bwyta mwy o lysiau*

## 74% O YSGOLION

*yn dweud bod plant yn fwy tebygol o fwyta llysiau a lleihau gwastraff*

## 87% O BLANT MEWN YSGOLION

eisiau gwneud e eto

## 55% O RIENI YN ADRODD



cynnydd hir dymor wrth fwyta llysiau wrth ail-adrodd y rhaglen

## 62% RHIENI PLANT


A GYMRODD RAN MEWN YSGOLION YN DWEUD EU BOD NHW HEFYD WEDI BWYTA MWY O LYSIAU

## 89% O YSGOLION

yn adrodd bod plant yn bwyta mwy o lysiau

# EICH CYNLLUNYDD

Canllaw cam wrth gam i raglen Bwyta'r Llysiau i'w Llethu




## CYNLLUNIO

**IONAWR A CHWEFROR 2025**

- [ ] Cysylltu gyda eich arlwywyr
- [ ] Penderfynu sut fyddwch chi'n defnyddio'r cynlluniau gwers **(TUD. 10)**
- [ ] Cynllunio eich gwasanaeth **(TUD. 9)**
- [ ] Anfon neges i deuluoedd **(TUD.14)**

## PARATOI

**DECHRAU MIS MAWRTH 2025**

- [ ] Disgwyliwch focs neu ddau o asedau
- [ ] Rhoi sticeri i dîm amser cinio **(TUD. 12)**
- [ ] Rhoi pecyn addurno i'r arlwywyr neu tîm amser cinio **(TUD 12)**
- [ ] Anfon pecyn I'r Gâd i deuluoedd **(TUD 14)**

### BETH SYDD YN Y BOCS?

Pecynnau i fynd adre

Addurniadau

Rholiau o sticeri

Posteri i'r dderbynfa



**EATTHEMTODEFEATTHEM.COM**

**Dogfennau, adborth a mwy.**
**Cofiwch gofrestru i glywed am brosiectau'r dyfodol.**

# LAWNSIO

## 10FED MAWRTH 2025

- [ ] Dosbarthu y pecynnau i fynd adref
- [ ] Cychwyn gyda gwasanaeth **(TUD. 9)**
- [ ] Atgoffa teuluoedd **(TUD. 14)**
- [ ] Gosod y posteri yn y dderbynfa a'r addurniadau yn y neuadd fwyta **(TUD. 12)**




Mae plant wrth eu bodd gyda sticeri (ac a gweud y gwir, pwy sy' ddim yn caru siart wobrwyo dda?!). Mae pob pecyn i fynd adref yn cynnwys taflen o sticeri (rhai sy'n garedig i'r blaned!) a siart i nodi'r llwyddiannau llysiau. Mae gyd am wneud bwyta iachus yn arfer sy'n hwyl i'r teulu i gyd!

Mae'r pecynnau yn dod mewn amlen wedi ei frandio. Os yw adnoddau eich ysgol wedi eu darparu gan gwmni lleol yna byddan nhw hefyd yn ymddangos ar yr amlen.

Yn eich bocsys fe ddylai fod un i bob plentyn eich ysgol o'r Meithrin i flwyddyn 6. Os nad oes digon gyda chi, cysylltwch gyda ni (tud. 22).
**A wnewch chi roi rhain yn y bagiau ysgol i fynd adre gyda'r plant diwrnodau cyntaf yr ymgyrch.**





# YN FYW

## 10FED MAWRTH - 14EG MAWRTH

- [ ] Dosbarthu sticeri **(TUD. 12)**
- [ ] Edrych am ddiweddariadau wrthon ni
- [ ] Cael hwyl! Postiwch a rhannwch eich llwyddiannau gyda ni ar gyfryngau cymdeithasol **(TUD. 15)**



# YN OLAF

## 10FED MAWRTH - 28AIN O EBRILL

- [ ] Plis rhowch wybod eich meddyliau a'ch profiadau i ni **(TUD 15)**
- [ ] Cofiwch geisio am yr Her Arlwywyr **(TUD 13)**



**DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH!**

# LLYSIAU!

## Troi'r cyffro i gnoi llysiau

Paratowch am lawer o sbort gyda llysiau! Mae ganddon ni sticeri, addurniadau a chynlluniau gwers i helpu chi i ddod â'r pump thema llysiau yn fyw. Yn ddelfrydol, bydd y themâu yma yn cael eu defnyddio yn y stafell ddosbarth a'r neuadd fwyta, gan droi eich ysgol yn fyd hydolus sy'n crenshio llysiau!

Dewiswch eich hoff lysiau neu mynd am y pump! Tra y byddwn wrth ein bodd os allwch ymuno gyda ni wythnos y 10fed o Fawrth, mae croeso i chi wneud y cynllun pryd bynnag sy'n eich siwtio chi. Byddwch yn barod i ddeffro'r blasbwyntiau!



# CYCHWYN GYDA GWASANAETH



**DR JASON O'ROURKE**
PENNAETH,
WASHINGBOROUGH
ACADEMY, SWYDD LINCOLN

## BWRIAD

**Cyflwyno y plant i themâu Bwyta'r Llysiau i'w Llethu 2025**




1. Esboniwch eich bod eisiau rhannu gyda'r plant ymgyrch genedlaethol sy'n cyflwyno llysiau gwych i'w deiet.
2. Dangoswch yr hysbyseb o llynedd a gofynnwch os oes rhywun yn cofio ei weld ar y teledu.
3. Esboniwch i'r plant fod eleni (2025) yn mynd i fod yn fwy ac yn well ac yn herio nhw i gymryd rhan adref hefyd. Bydd llawer o weithgareddau a heriau i'w cwblhau adref ac yn yr ysgol sy'n ymweud â llysiau.
4. Yr her eleni fydd gweld faint o fath gwahanol o lysiau gallwch eu bwyta adref, bwyta ar eich plât bwyd ysgol neu yn eich bocs bwyd.
5. Ewch trwy y Pwynt Pwer 'Bwyta'r Llysiau i'w Llethu' yn cyflwyno'r pump llysieuyn gwahanol bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio arno eleni.
6. Gallwch osod cystadleuaeth i'r plant i greu y cyfuniad gorau o liwiau gyda'r llysiau sydd adref neu ar eu plât bwyd ysgol neu bocs bwyd.
7. Gallwch orffen gyda'r fideo gan Sam & Mark o Crackerjack.

**Pwynt Pwer gwasanaeth, fideo ac adnoddau eraill i ysgolion:**

**EatThemToDefeatThem.com**

## AMSER AM YSTYRIAETH:

Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu hoff lysiau yn eu meddwl.

**GWEDDI:**

*Duw, diolch am y llysiau a'r holl fwyd.*
*Diolch i bawb sy'n ein helpu ni i fwyta: ein teuluoedd, ein bwyd, y rhai sy'n gweithio yn y gegin yn yr ysgol, y rhai sydd wedi tyfu, pigo, cynhyrchu a dosbarthu ein bwyd.*
*Helpa ni i fod yn ddiolchgar am bopeth sydd ganddon ni ac am y gwaith caled sydd wedi mynd mewn i greu'r bwyd.*
*Diolch am fwyd da. Amen.*


# ADNODDAU DYSGU

**Mae ein gwefan yn llawn adnoddau dysgu a chynlluniau gwersi i gefnogi Bwyta'r Llysiau i'w Llethu.**



## ADDYSG SYNHWYRAIDD

Mae ymgyfarwyddo a chwarae yn ffordd wych o wneud llysiau yn beth cyffrous a helpu plant i fwynhau eu bwyta nhw! Mae TastEd a Veg Power wedi partneru i ddarparu pecyn cymorth addysg bwyd synhwyraidd i ysgolion. Mae addysg bwyd synhwyraidd yn ymwneud â defnyddio ein pum synnwyr i archwilio llysiau.




## CELF A CHREFFT

Mae gennym lysiau i'w torri allan a lliwio i gefnogi addysg synhwyraidd - neu i'w lliwio am hwyl yn unig. Mae gennym ni hefyd fasgiau wyneb llysiau bydd y plant yn eu mwynhau. Gofynnwch i'r plant liwio'r llysiau gan fod mor greadigol â phosibl.

Dangoswch luniau o lysiau gyda lliwiau anarferol fel moron piws, ffa Mexican amryliw neu tomato du.

Gadwch iddynt ddefnyddio cyfryngau gwahanol i greu, fel gludwaith neu *collage* gyda papur sgleiniog ar gyfer purpunnau, papur sidan wedi sgrwnshio ar gyfer brocoli, darnau o linyn ar gyfer streipiau ar foron, neu garden gyda gwaead garw ar gyfer corn melys. Pan fydd y llysiau i gyd wedi eu addurno, defnyddiwch nhw i wneud arddangosfa yn yr ysgol a rhannwch ar gyfryngau cymdeithasol: **#EatThemToDefeatThem** **#BwytarLlysiauIwLlethu**




# ARCHWILIO BWYD O AMGYLCH Y BYD

Mae Bwyta'r Llysiau i'w Llethu yn gyfle gwych i blant archwilio bwyd o ar draws y byd a dathlu amrywiaeth bwyd sy'n cael eu mwynhau gan wahanol deuluoedd a diwylliannau.

Ar gyfer gwahanol ardaloedd o'r byd mae ganddon ni gynlluniau gwersi sy'n addas o ddosbarth derbyn i flwyddyn 5 gyda'r thema "Bwyd ar draws y byd". Maent wedi eu creu gan y pennaeth arobryn Dr Jason O'Rourke.

## ARCHWILIO'R BYD

I gefnogi'r cynlluniau gwersi rydym wedi creu y map yma o'r byd y mae modd ei argraffu, gosod ar y wal a'i lenwi wrth i chi fynd.





# STICERI AC ADDURNIADAU








Mae'r adnoddau a anfonir i'ch ysgolion yn cynnwys rholiau o sticeri, un cynllun ar gyfer pob un o'r pum llysieuyn a digon i bob plentyn. Byddwch hefyd yn dod o hyd i set o 14 o addurniadau ar gyfer eich neuadd fwyta. Mae'r sticeri llysiau yn hanfodol i'r profiad. Maent yn gwasanaethu dau ddiben. Yn gyntaf, gall yr arlwywyr a thîm yr ysgol roi sticeri i'r plant i'w gwobrwyo am drio'r llysiau. Mae plant wrth eu bodd â sticeri. Ar gyfer plant sy'n ddim yn siŵr, yna does dim pwysau, gall arogli neu lyfu y llysiau fod yn opsiwn.

***Mae'r sticeri yn dweud "Fe wnes i flasu llysiau heddiw"***

Yr ail nôd yw i roi gwybod i'r rhieni a gofalwyr. Mae'r sticeri yn dweud "Fe wnes i flasu llysiau heddiw". Byddwn yn annog rhieni i gydnabod a chanmol (yn ddelfrydol ymuno yn hwyl yr ymgyrch) ac yna, yn hanfodol, ail-adrodd y llysiau yna adref, yn gwobrwyo'r plentyn yn defnyddio eu siart wobrwyo. Ry'n ni'n symud o drio yn yr ysgol, ail-adrodd adref, yna gwobrwyo i normaleiddio'r llysiau yn neiet y plentyn.

I gryfhau'r effaith, gallwch wobrwyo'r plentyn ymhellach pan yn rhoi'r sticeri gyda geiriau fel "wnes di guro nhw?" Mae pump dyluniad o sticeri ac mae digon i bob plentyn cael un o bob un dyluniad.

# BWYTA'R LLYSIAU I'W LLETHU
# HER ARLWYWYR 2025

Sponsored by Tilda



**Ry'n ni'n caru arlwywyr!** Mae nhw'n hanfodol ar gyfer llwyddiant ymgyrch Bwyta'r Llysiau i'w Llethu. O lysiau blasus i ddosbarthu sticeru, annog plant i chwarae gyda brwdfrydedd - ni fyddai modd i ni wneud hyn hebddynt.

Bob blwyddyn ry'n ni'n gofyn i'r timoedd arlwyo i gyflwyno llysiau blasus. Mae nhw'n sicrhau bod y llysiau yn arwr amser cinio ac yn creu cyfle gwych i blant eu blasu. Mae'r Her Arlwywyr, sy'n cael ei noddi gan Tilda, yn cydnabod ac yn dathlu y timoedd arlwyo.

Mae eu gwaith caled yn haeddu cydnabyddiaeth. Os ydynt wedi eich syfrdanu gyda arddangosfeydd arbennig, cael blas ar y byrddau blasu neu yn gweini gyda gwên mae nhw'n haeddu diolch a falle gwobr ariannol. Mwy: ***EatThemtoDefaetThem.com***



# YMGYSYLLTU Â THEULUOEDD




## Troi'r blas cyntaf yn arfer hir dymor

Sut allwn ni droi cyffro Bwyta'r Llysiau i'w Llethu, a'r blas cyntaf holl bwysig y llysiau rydych chi'n eu gweini yn yr ysgolion, yn arfer hir dymor yn neiet y plant?

Mae'r rhaglen yn gweithio gan fod tair elfen yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r hysbysebu a'r gefnogaeth gan enwogion yn creu cyffro. Mae'r rhaglen yn yr ysgolion yn annog plant i drio mwy o lysiau. Mae'r siart wobrwyo o'r pecynnau sticer yn helpu rhieni a gofalwyr i droi'r profiadau newydd yn arferion da hir dymor.




Felly, mae'n hanfodol i lwyddiant yr ymgyrch i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr. Dyma sut allwch chi helpu:

1. **Cyn gynted â phosib...** Rhowch wybod bod y rhaglen ar y ffordd a cyfeiriwch nhw at EatThemtoDefeatThem.com sydd ag adran arbennig a fideo byr i helpu a chefnogi teuluoedd.
2. **Yn gynnar yn mis Chwefror...** Ewch i'n gwefan i lawrlwytho ac anfon y canllaw defnyddiol yma i helpu nhw wneud y mwyaf o'r rhaglen.
3. **Wythnos 10fed o Fawrth...** Gadael i'r rhieni wybod bod yr ymgyrch wedi dechrau yn yr ysgol ac i gadw llygaid mas am becynnau yn y bag ysgol.







## POSTERI I'R DDERBYNFA

Byddwn yn anfon pecyn o dri poster A4 i'w rhoi fyny yn y dderbynfa, gât yr ysgol neu ardaloedd eraill lle mae rhieni a gofalwyr yn ymgasglu. Rhowch nhw fyny mewn da bryd iddynt allu eu gweld.

CYFEIRIWCH EICH TEULUOEDD I
***EatThemToDefeatThem.com/cy/teuluoedd/***




# ADBORTH

Mae Veg Power yn gynghrair nid-am-elw o gwmniau, sefydliadau, enwogion, ysgolion a rhieni sy'n uno am un rheswm: i annog ein plant i fwyta mwy o lysiau iachus a blasus.

Dyw ein cenhadaeth ddim yn dasg hawdd, ond os dewn at ein gilydd, credwn ei fod yn bosib. Rydym angen eich help chi. Rhowch ni ar ben y daith gyda eich profiad a dealltwriaeth, a defnyddiwch eich llais ar gyfryngau cymdeithasol i ysbrydoli a chefnogi eich gilydd.

Tan ddiwedd Ebrill bydd gennym holiadur arlein. Mae croeso i bawb roi gwybod i ni beth mae'n nhw'n ei feddwl. Chi, eich cydweithwyr, y tîm arlwyo a'r criw cefnogi, yn ogystal â rhieni a gofalwyr. Os ydych chi'n ei garu neu ei gasau rydym eisiau clywed wrthoch chi, gan ei fod yn adborth bydd yn helpu ni i wella.

EIN FFURFLEN ARBORTH ARLEIN:

**EatThemToDefeatThem.com**

**ANGEN CYMORTH?**

Os oes angen cymorth, gwiriwch y canllaw yma gyntaf yna ewch i'n gwefan. Yno, fe ddewch o hyd i adnoddau mae modd eu lawrlwytho, canllawiau a blogiau gall ateb eich cwestiwn, ond os yw dal heb ei ateb yna cysylltwch â ni: ***hello@vegpower.org.uk***

## RHANNWCH EICH BUDDUGOLIAETHAU

Mae cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan hollbwysig. Ni fyddwm yn disgwyl nac yn annog eich plant i fod yn weithgar ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol, ond mae rhieni, gofalwyr, athrawon, arlwywyr ac eraill yn eu defnyddio. Ar gyfryngau cymdeithasol gallwn ysbrydoli ein gilydd gyda syniadau, rhyfeddu pobl gyda eich ysgol wych a chefnogi ein gilydd trwy hoffi a rhannu. Dyma lle mae'r gynghrair yn dod at ei gilydd.

Rhannwch yr hwyl gyda eich ysgol gyda'r hashnod

**#EatThemToDefeatThem**
**#BwytarLlysiauiwLlethu**

Dilynwch y cyffro:
@VegPowerUK


Adamsdown Healthy Schools @AdamsdownHSch · Feb 15
@AdamsdownPrm will be taking part in the 'Eat Them to Defeat Them' campaign, to increase children's vegetable awareness & intake.
#VegPower #EatThemToDefeatThem @VegPowerUK
Ysgol Pant Pastynog @pantpastynog · 13h
Pupils from Yr3-6 had a guessing and tasting session this afternoon.Thanks again to Jane Jones for coming over to talk to the children about the importance of eating vegetables for a healthy diet. @IachHealthy @VegPowerUK @StAsaphDiocese @cyfoeth_enrich
#Eatthemtodefeatthem
Eat Culture - Education Catering @EatCultureNotts · Mar 11
Victory for the children at Springfield Primary School crunching those sweet peppers for #EatThemToDefeatThem Share your wins with us
@eatculturenotts @SpringfieldPri1
Ysgol Plas Coch @YsgolPlasCoch · Feb 23
Mae plant y Meithrin a Derbyn wedi cael dechrau da i'r ymgyrch bwyta'r llysiau i'w llethu heddiw gan fwynhau blasu pys! The Nursery and Reception pupils have had a good start to the eat them to defeat them campaign by enjoying eating peas and pasta! @VegPowerUK
Ysgol Carreg Emlyn @carregemlyn · Feb 23
Da iawn chi ferched am fwyta llysiau i'w llethu! Well done girls for eating vegetables. #eatthemtodefeatthem #bwytewchyllysiauiwllethu
Ysgol Cefn Meiriadog @YsgolCefnM · Feb 28
Tomatoes were on the menu for #Eatthemtodefeatthem this morn members of the school council prepared and served them at playtim lots of children giving them a try and some really enjoying them!
@VegPowerUK @IachHealthy
St David's School @stdavidscps
The veg were a big hit in
#EatThemToDefeatThem
Bryncoch CIW @BryncochCIW · 14h
EAT THEM TO DEFEAT THEM! Eco Club & Healthy Schools did the fruit tuck shop together today and added veg to the menu
#BCIWElgan #EatThemToDefeatThem @VegPowerUK @EcoSchoolssouth
@H_SwanseaBay
Ysgol Nantgaredig @YsgolNant · Feb 21
Crenshan! Llowcio! Blasu! ..... #BwytewchYLlysiau
Chomp, Chomp, Taste! ... #EatThemToDefeatThem @ysgoliachs
Ysgol Cefn Meiriadog @YsgolCefnM · 1h
Today's #eatthemtodefeatthem vegetable of choice was peppers
Members of the school council prepared and served them at playtime, they were very popular! @VegPowerUK @IachHealthy
Beacon Primary Academy @BeaconAcad · 18h
Who in Y4 is eating pepper tonight? This young lady tried pepper for the first time last night and has encouraged the rest of the class to do the same with the Zombie Peppers recipe. We can't wait to find out tomorrow!
#EatThemToDefeatThem @VegPowerUK #healthy #SuperYummyKitchen
ZOMBIE PEPPERS
Ysgol Esgob Morgan
@esgobmorgan
Blwyddyn 3 are loving the #eatthemtodefeatthem challenge trying lots of different vegetables. @VegPowerUK @Tesco @AldiUK @sainsburys
@LEGO_Group
10:26 AM · Feb 27, 2024 · 7 Views
Infant School @CheadleRCInfScl · 1h
the tomatoes this week!#EatThemToDefeatThem
This week, the campaign focuses on #carrots
Cemetery of Carrots